# Fforwm Cyllideb Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 10/10/2022 |
| **Amser** | 10.00 tan 11.30 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Aelodau** | Mark Hatch (MH) – Dinas Brân, Helen Vernon (HV) – Bodnant, Colette Owen (CO) – Esgobaeth, Neil Foley (NF) – Ysgol Uwchradd Prestatyn, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rona Jones (RJ) – Emmanuel, Rhona O'Neill (RO) – Tir Morfa, Glen Williams – Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Dafydd Davies (DD) – Ysgol Twm o'r Nant, Shannon Gage (SG) – Is-Gadeirydd, Amanda Preston (AP) – Crist y Gair, Lindsey Davenport (LD) Is-Gadeirydd – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, Leah Crimes (LC) – Santes Ffraid, y Cynghorydd Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg, Sian Alwen (SA) – Ysgol Glan Clwyd, Teleri Llwyd – Borthyn, Bethan Fell (BF) – y Gwernant |
| **Rhai nad ydynt yn aelodau** | Craig Joyce (CAJ) – Rheolwr Ariannu Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Nodiadau), Chris Speed (CS) – Rheolwr Cyllid a Sicrwydd, Kevin Mowbray (KM) – Cynrychiolydd Rheolwyr Busnes a Chyllid, Paul Senior (PS) – Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd, Jamie Groves (JG) – Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych, Steve Gadd (SGADD) – Pennaeth Cyllid |
| **Ymddiheuriadau** | Claire Armistead (CA) Cadeirydd – Ysgol Uwchradd y Rhyl, Geraint Davies (GD) – Pennaeth Addysg |

## 1. Croeso

1. Croesawyd y grŵp gan Lindsey Davenport (Is-Gadeirydd). Croesawodd y grŵp y Penaethiaid newydd – Glen Williams, Ysgol Uwchradd Dinbych, a Sian Alwen, Ysgol Glan Clwyd.

   **Roedd 17 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

## 2. Materion sy'n codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf 05/07/2022

Nid oedd unrhyw faterion yn codi. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod diwethaf y fforwm.

# Fforwm Cyllideb Ysgolion

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 23/24 – Steve Gadd

Siaradodd Steve am y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â chyllideb y flwyddyn nesaf.

Ar hyn o bryd gwelir y bydd tua £5.4 miliwn o orwariant yn 2022/23, sy'n cael ei ostwng i oddeutu £3 miliwn ar ôl arbedion ariannol a defnyddio'r hyn sy'n weddill o gyllid Covid. Mae chwyddiant cyflogau wedi gwaethygu ers y Fforwm Cyllideb Ysgolion diwethaf, ond bydd y gostyngiad mewn Y.G. yn dod i rym ddechrau mis Tachwedd.

Y mae gwerth £19 miliwn o bwysau ar gyfer 2023/24. Cynigir cynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor, ond mae pwysau anferth yng ngwasanaethau gofal cymdeithasol / plant a chludiant. Y llynedd dywedwyd wrthym am ddisgwyl cynnydd o 3.3% yn y setliad gan LlC, ond mae chwyddiant yn 10% felly mewn gwirionedd nid yw'n ddigon o bell ffordd.

Gan ystyried hyn i gyd, gallai fod bwlch o £10 miliwn ar gyfer 2023/24. Gofynnwyd i wasanaethau anelu at arbedion o 1%, ac mae CSDd yn gofyn i ysgolion am 1% hefyd.

Er gwaethaf hyn, rhoddir yr holl bwysau cyflogau disgwyliedig i ysgolion ac yr ydym hefyd yn disgwyl arbedion pensiwn y flwyddyn nesaf. Mae'r setliad terfynol i ddod yng nghanol mis Rhagfyr a chynhelir cyfarfodydd rhwng 'rŵan a hynny i gadarnhau arbedion posibl.

Mae'n debygol y bydd angen cronfeydd arian parod wrth gefn ar gyfer 2023/24 – tua £2 miliwn.

Ar hyn o bryd mae pryder mawr am 2024/25, ond mae llawer o benderfyniadau gwleidyddol i'w gwneud cyn hynny.

## 4. Partneriaeth Hamdden Sir Ddinbych

Yr oedd Jamie Groves, Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych, yn bresennol yn y cyfarfod. Traddododd gyflwyniad PowerPoint. Anfonir copi i'r aelodau.

**CAM GWEITHREDU – bydd JG yn cysylltu â Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd fesul un i gyfarfod â hwy ynglŷn â safleoedd yr ACLl.**

## 5. Pwysau

CAJ – Byddwn yn cwmpasu costau cynnydd mewn cyflogau, Trethi Annomestig Cenedlaethol a Hamdden ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gofynnodd i'r grŵp a oes unrhyw bwysau y mae ysgolion yn credu y gellid eu hystyried ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond y gwirionedd yw ei bod yn annhebygol y gellid eu hariannu gyda'r gyllideb yr ydym yn debygol o'i derbyn gan LlC. Ni chrybwyllwyd unrhyw bwysau eraill.

## 6. Balansau Dros Ben

CAJ – Mae dogfen wedi ei llunio ac fe'i rhennir gydag ysgolion dros yr wythnos nesaf. Gofynnodd Llywodraeth Cymru o'r blaen am wybodaeth ynglŷn ag ysgolion yn cadw

digonedd o arian dros ben.  Byddwn yn cyfarfod ag ysgolion sydd â gwarged o fwy na 5%.  Bydd hyn yn rhoi llinell sylfaen a mwy o wybodaeth i ni os cawn ein harchwilio a phe bai LlC yn gofyn i ni am wybodaeth eto yn y dyfodol.

Yr oedd SG eisiau rhoi sylw i'r hyn a fydd yn digwydd i ysgolion na allant ddod o sefyllfa o ddiffyg – a fydd cap ar falansau dros ben? Dylai bod gan bob plentyn yn Sir Ddinbych yr hawl i'r un addysg, pa ysgol bynnag y mae'n ei mynychu. Ymatebodd CAJ fod hynny mewn byd delfrydol, ond mae pob corff llywodraethu'n gyfrifol am reoli ei gyllideb ysgol a'i benderfyniadau ei hun, ac ni all CSDd symud cyllid o gwmpas ysgolion sydd ag arian dros ben a diffygion.

**CAM GWEITHREDU – mae CAJ am siarad â Geraint Davies er mwyn cyfarfod â SG ar wahân.**

## 7. Cynlluniau Cyfun

Mae CH wedi cymryd y cyfrifoldeb dros ad-daliadau cynlluniau salwch cyfun oddi wrth Paul Senior.  Ar hyn o bryd gwelir y bydd £70,000 o orwariant ar ddiwedd mis Mawrth.  Mae hyn yn seiliedig ar 4 mis o ddata hyd yma.  Y llynedd yr oedd y cynllun wedi mynd £190,000 drosodd ar ddiwedd y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pheidio â chwmpasu costau staffio yn ystod gwyliau'r ysgol.  Ar wahân i rai ysgolion sydd â chontractau hirdymor i gyflenwi ar gyfer salwch, cytunwyd ar hyn gan y fforwm.

**Cytunwyd gan y fforwm – peidio â chyflenwi ar gyfer salwch yn ystod gwyliau'r ysgol oni bai fod contractau salwch hirdymor yn bodoli.**

## 8. Materion yn codi o'r clystyrau

Dim. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r holl ysgolion ar gyfer ymweliad Estyn.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – Ionawr 2023 ar Microsoft Teams.**